Dibynnu arno

Byw ar Sicrwydd Gair Duw

CEFNDIR I'R DARLLENIAD BEIBLAIDD

Gwybodaeth gefndirol i'ch helpu i baratoi eich pregeth neu eich gweithgareddau ieuenctid a phlant, trwy eich helpu i gael darlun cliriach o'r stori sy'n gefndir i Eseia 55.1–11.

CYD-DESTUN HANESYDDOL

Mae geiriau Eseia 40-55 (penodau sy'n aml yn cael eu galw'n Deutero-Eseia) yn llawn anogaeth a disgwyliad am bethau gwell i ddod. Ymddengys fod y geiriau wedi cael eu traddodi tua therfyn y 6ed ganrif CC i ffoaduriaid Iddewig a gaethgludwyd ym Mabilon. Dechreuodd yr alltudiaeth hon ymron i hanner cant o flynyddoedd yn gynharach, pan goncrwyd Jwda a Jerusalem gan y Babiloniaid. Halogwyd y deml a'i dryllio, a gadawyd rhannau o'r ddinas yn anghyfannedd. Alltudiwyd arweinwyr y genedl Iddewig, a bellach roeddent yn rhan o'r gweithlu cyffredin. Er hynny, nid oedd amodau byw yn rhy wael; ni ddylem feddwl amdanynt fel caethweision a oedd yn dioddef camdriniaeth lem.

Mae'r broffwydoliaeth a geir yn Eseia 40-55 yn dod o ddiwedd y cyfnod hwn. Bellach roedd grym milwrol y Babiloniaid wedi edwino ac roeddent yn rhy wan i reoli eu hymerodraeth anferth. Roedd y Persiaid yn tyfu mewn grym a dylanwad, a'u harweinydd, Cyrus (a gyfeiriwyd ato yn Eseia 45.1) wedi cael sawl buddugoliaeth nodedig. Rhyddhaodd Duw ei bobl trwy Cyrus a chynnig cyfle iddynt i ddychwelyd i wlad yr addewid.

Dyddiadau safonol ysgolheigaidd ar gyfer y digwyddiadau:

587 cc Cwymp Jerusalem i'r Babiloniaid;
539 cc Cwymp Babylon i'r Persiaid;
538 cc Gorchymyn Cyrus (Ezra 1) yn caniatáu i'r Iddewon ddychwelyd i Jerusalem i'w hail adeiladu;
515 cc Cysegru'r ail deml.

CYD-DESTUN EMOSIYNOL

Ym mha gyflwr seicolegol oedd cynulleidfa Eseia? Golyga'r bwlch o hanner canrif fod y broffwydoliaeth yn cael ei thraddodi i'r ail neu hyd yn oed y drydedd genhedlaeth o Iddewon i fyw ym Mabilon. Ychydig o'r rheiny a adawodd Jerwsalem hanner canrif ynghynt fyddai'n dal yn fyw. Byddai mwyafrif gwrandawyr y broffwydoliaeth, felly, wedi eu geni a'u magu ym Mabilon. Byddai sawl un yn ddryslyd am eu hunaniaeth: ai Iddewon oeddent, ynteu Babiloniaid? (Mae'r un math o gymhlethdod hunaniaeth yn gyffredin ymhlith yr amryw gymunedau o fewnfudwyr a ddaeth i'r Deyrnas Unedig o ail hanner yr ugeinfed ganrif ymlaen.) Efallai fod traddodiadau crefyddol eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau yn ymddangos yn fwyfwy amherthnasol iddynt.

BIBLE SOCIETY, STONEHILL GREEN, WESTLEA, SWINDON SN5 7DG. T: 01793 418100
F: 01793 418118 DONATION HOTLINE: 08459 272120 WWW.BIBLESUNDAY.ORG
CHARITY REGISTRATION NO. 232759 PATRON: HER MAJESTY THE QUEEN

cymdeithas y beibl
rhoi llais i neges y beibl

Efallai eu bod wedi mabwysiadu meddylfryd a gredai fod duwiau Babilon wedi profi eu bod yn gryfach na Duw Israel. Yn hanesyddol, credai'r Israeliaid eu bod yn addoli Duw pwerus a achubodd eu cyndadau o'r Aifft. Ond os nad oedd eu Duw yn alluog i achub y genedl rhag yr Babiloniaid ar eu tir eu hunain, pa rym posib allai fod ganddo ar dir estron? Efallai, i rai, ei bod yn ymddangos yn fwy synhwyrol i droi at dduwiau Babilon.

Byddai eraill yn cofio fod y proffwydi wedi rhybuddio droeon y byddai'r wlad yn cael ei choncro a'i goresgyn os byddai'r bobl a'u harweinwyr yn parhau i wrthod rhoi eu ffydd yn Nuw (e.e. Esia 1.7-9, 7.17, 39. 5-7). Roedd gweithredoedd Daniel yn amlygu gwerthoedd ac agweddau'r criw ffyddlon hwn oedd yn parhau i ymddiried yn Nuw (Daniel 6.6-13).

Felly, roedd nifer sylweddol o'r Israeliaid yn gyndyn i adael Babilon, yn amharod i roi eu ffydd yn Nuw; iddynt hwy, duw gwan, llwythol a bychan eu cyndadau oedd eu Duw. Efallai iddynt gyrraedd Babilon fel anffodusion anfoddog rhyfel difäol, ond bellach roedd ganddynt wreiddiau sefydlog ym Mabilon. Paham y dylent godi eu gwreiddiau i ddechrau bywyd newydd o galedi yn adfeilion un o ddinasoedd anghysbell yr ymherodraeth yr oeddynt bellach yn perthyn iddi?

HER Y PROFFWYD I'R BOBL

Mae'r datganiad hwn am Air Duw yn cyfeirio at y neges a gyhoeddwyd trwy'r proffwyd. Nid yw'r eilunod Babilonaidd yn ddim ond blociau o bren marw (44.9-20), heb unrhyw allu i ragweld y dyfodol. Ar y llaw arall, mae gan Dduw Israel y gallu i gyhoeddi'r dyfodol: ac mae'n siarad trwy ei broffwyd. Bydd Duw yn defnyddio Cyrus a'r Persiaid i ryddhau ei bobl o'u caethiwed Fabilonaidd a'u dychwelyd i Wlad yr Addewid (52. 11-12, 55. 12-13). Mae Duw wedi siarad, ac felly fe *fydd* hyn yn digwydd - gallant ddibynnu arno.

Mae Gair Duw fel thema ond yn ymddangos yn Eseia 40-55 ddwywaith: yn 40.5-8 a 45.23.

Gallai'r datganiad am y dŵr yn dychwelyd awgrymu rhyw wybodaeth o gylchrediad dŵr yn yr Hen Israel. Er nad oedd ganddynt wybodaeth wyddonol drylwyr am hyn, mae'n bosib eu bod wedi amgyffred fod yn rhaid i ddŵr ddychwelyd i'r cymylau os ydyw am ddisgyn i'r ddaear drachefn.

DYFYNIADAU O'R ESBONIADAU

'Nid yw'r Beibl ar ei ben ei hun yn trawsnewid, ond mae'r Gair, wedi ei gymhwyso gan yr Ysbryd Glân, yn creu adfywiad ysbrydol.' (Millard Erickson, *Christian Theology*, Grand Rapids: Baker Book House, 1983-85, pp. 1012)

'Mae Gair Duw... yn gysur i'r un sy'n ildio i ewyllys Duw. Caiff ei deimlo fel bygythiad a rhybudd i'r un sy'n ystyfnig ac yn ei wrthsefyll.' (John Watts, *Isaiah 34–66*, Waco: Word, 1987, pp. 247)

'nid yw'r neges am iachawdwriaeth a lefarwyd wrth Israel... yn gweithio'n awtomatig. Mae'n neges sy'n cael ei lefaru i bobl sydd â'r gallu i'w dderbyn neu i'w wrthod.'
(Claus Westermann, *Isaiah 40–66*, London: SCM, 1969, pp. 290)